www.healthandcarelearning.wales

# FAQs for the HSC and CCPLD Core assessment update

# Cwestiynau Cyffredin ar ddiweddariad asesiadau Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

September 2023
Medi 2023

The City and Guilds of London Institute.
Incorporated by Royal Charter. Founded 1878.
Registered Charity in England and Wales 312832 and in Scotland SC039576.
WJEC CBAC Ltd. is a company limited by guarantee, registration in
England and Wales (no. 3150875) and is a registered charity (no. 1073332

## What happens if my learner is not fully complete by the end of December 2023?

Learners who have not completed by the end of December 2023 will be expected to undertake the revised MCQ once this is available in January 2024. Previously completed assessments will not contribute to the final grade for these learners. Please bear this in mind when registering new learners during September 2023.

## Beth sy'n digwydd os na fydd fy nysgwr wedi cwblhau'n llawn erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023?

Bydd disgwyl i ddysgwyr sydd heb gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023 ymgymryd â'r cwestiynau amlddewis diwygiedig unwaith y bydd hyn ar gael ym mis Ionawr 2024. Ni fydd asesiadau a gwblhawyd yn flaenorol yn cyfrannu at y radd derfynol ar gyfer y dysgwyr hyn. Cofiwch hyn wrth gofrestru dysgwyr newydd ym mis Medi 2023.

## What happens if my learner passes the current MCQ (pre-January 2024 version) but does not pass their internal assessments?

The current MCQ (pre-January 2024 version) does not assess the full content of the Core qualification, and therefore cannot be used as a proxy for the January 2024 version. Learners in this situation will be expected to complete the January 2024 version of the MCQ. We recommend that these learners spend time revising and completing the sample assessments **before** they are entered for the revised MCQ.

## Beth sy'n digwydd os bydd fy nysgwr yn pasio'r cwestiynau amlddewis presennol (fersiwn cyn mis Ionawr 2024) ond nad yw'n pasio ei asesiadau mewnol?

Nid yw'r cwestiynau amlddewis presennol (fersiwn cyn mis Ionawr 2024) yn asesu cynnwys llawn y cymhwyster Craidd, ac felly ni ellir ei ddefnyddio yn lle fersiwn Ionawr 2024. Bydd disgwyl i ddysgwyr yn y sefyllfa hon gwblhau fersiwn Ionawr 2024 o'r Cwestiynau Amlddewis. Rydym yn argymell bod y dysgwyr hyn yn treulio amser yn adolygu ac yn cwblhau'r asesiadau enghreifftiol **cyn** eu cyflwyno ar gyfer y cwestiynau amlddewis diwygiedig.

The City and Guilds of London Institute.
Incorporated by Royal Charter. Founded 1878.
Registered Charity in England and Wales 312832 and in Scotland SC039576.
WJEC CBAC Ltd. is a company limited by guarantee, registration in
England and Wales (no. 3150875) and is a registered charity (no. 1073332)

| Will the revised MCQ be available on paper and online? | A fydd y Cwestiynau Amlddewis diwygiedig ar gael ar bapur ac ar-lein? |
|---|---|
| Due to very low take up, we are retiring the paper version of the MCQ however, paper versions of the MCQ test will still be available for those who require reasonable adjustments.<br><br>Further information about City & Guilds access arrangement and reasonable adjustments can be found in the centre document library here.<br><br>WJEC access arrangements can be found in the administration handbook on the hclw website. | Oherwydd y niferoedd isel iawn sy'n eu defnyddio, rydym am roi'r gorau i'r fersiwn papur o'r Cwestiynau Amlddewis. Fodd bynnag, bydd fersiynau papur o'r prawf Cwestiynau Amlddewis ar gael o hyd i'r rheini y mae angen addasiadau rhesymol arnynt.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am drefniadau mynediad City & Guilds ac addasiadau rhesymol ar gael yn llyfrgell dogfennau'r ganolfan yma.<br><br>Mae trefniadau mynediad CBAC ar gael yn y llawlyfr gweinyddu ar wefan hclw. |
| **Will I need to re-register any currently registered learners who have yet to complete the assessment?**<br><br>**City & Guilds:**<br>No - the City & Guilds HSC Core qualification will retain it's same POS number (8040-02), so any existing registrations will carry forward, but assessment expectations will change for these learner should they not complete by 31 December 2023.<br><br>New learners will continue to be registered on the 8040-02 qualification and booked for the MCQ through Walled Garden.<br><br>**WJEC:**<br>No, centres are advised to continue to enter learners who are following the | **A fydd angen i mi ailgofrestru unrhyw ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd sydd heb gwblhau'r asesiad eto?**<br><br>**City & Guilds:**<br>Na fydd – bydd cymhwyster Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol City & Guilds yn cadw'r un rhif POS (8040-02), felly bydd unrhyw un sydd wedi cofrestru'n barod yn parhau i fod wedi cofrestru, ond bydd disgwyliadau asesu'n newid ar gyfer y dysgwyr hyn os na fyddant wedi'u cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2023.<br><br>Bydd dysgwyr newydd yn parhau i gael eu cofrestru ar y cymhwyster 8040-02 ac archebir lle ar gyfer y cwestiynau amlddewis iddynt drwy Walled Garden.<br><br>**CBAC:**<br>Na fydd, cynghorir canolfannau i barhau i gofrestru dysgwyr sy'n dilyn y strategaeth |

| | |
|---|---|
| reduced assessment strategy until December 2023. Any new learners due for completion after 1st January 2024 will follow the MCQ only assessment approach. Further information on entry arrangements will be in the administration handbook on the hclw website. | asesiadau llai tan fis Rhagfyr 2023. Bydd unrhyw ddysgwyr newydd sydd i fod i gwblhau ar ôl 1 Ionawr 2024 yn dilyn y dull asesu Cwestiynau Amlddewis yn unig. Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau ymgeisio yn y llawlyfr gweinyddu ar wefan hclw. |
| **What happens if my learners have completed the required assessments prior to 31/12/2023, but have yet to be certificated as we are awaiting a final quality activity?**<br><br>**City & Guilds HSC Core:**<br><br>1. **Approved providers who have been awarded Direct Claim Status for the Core qualifications:** There is no need to wait for an EQA activity before claiming certification for your learners. If you have not claimed certification prior to 31 December 2023 you will not be able to do this without intervention from HCLW Quality. In these circumstances please contact HCLW Quality for further instructions. Please note that we may request specific documentation to support your claim.<br><br>2. **Approved providers who have not been awarded Direct Claim Status:** If you have not been able to arrange a final quality activity to occur prior to 31 December 2023 please contact HCLW Quality for further instructions. Please note that we may request specific documentation to support your claim. | **Beth sy'n digwydd os yw fy nysgwyr wedi cwblhau'r asesiadau gofynnol cyn 31/12/2023, ond heb gael eu hardystio eto gan ein bod yn disgwyl am weithgaredd ansawdd terfynol?**<br><br>**Cymhwyster Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol City & Guilds:**<br><br>1. **Darparwyr cymeradwy y dyfarnwyd Statws Hawlio Uniongyrchol iddynt ar gyfer y cymwysterau Craidd:** Does dim angen aros am weithgaredd Sicrhau Ansawdd Allanol cyn hawlio ardystiad ar gyfer eich dysgwyr. Os nad ydych wedi hawlio ardystiad cyn 31 Rhagfyr 2023 ni fyddwch yn gallu gwneud hyn heb i adran Ansawdd HCLW ymyrryd. Yn yr amgylchiadau hyn, cysylltwch ag adran Ansawdd HCLW i gael rhagor o gyfarwyddiadau. Sylwch y gallwn ofyn am ddogfennau penodol i gefnogi eich hawliad.<br><br>2. **Darparwyr cymeradwy nad ydynt wedi derbyn Statws Hawlio Uniongyrchol:** Os nad ydych chi wedi gallu trefnu gweithgaredd ansawdd terfynol cyn 31 Rhagfyr 2023, cysylltwch ag adran Ansawdd HCLW i gael rhagor o gyfarwyddiadau. Sylwch y gallwn ofyn am ddogfennau penodol i gefnogi eich hawliad. |

**WJEC CCPLD Core:**

1. Approved providers who have been awarded Direct Claim Status for the Core qualifications: There is no need to wait for an EQA activity before claiming certification for your learners, please enter and submit your learners on IAMIS as usual.

2. Approved providers who have not been awarded Direct Claim Status: We strongly recommend that centres pre plan an EQA activity before December 2023 to allow a smooth transition to the new assessment approach. If you have not been able to arrange a final quality activity to occur prior to 31 December 23 please contact CCPLD@wjec.co.uk.

**Cymhwyster Craidd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant CBAC:**

1. Darparwyr cymeradwy y dyfarnwyd Statws Hawlio Uniongyrchol iddynt ar gyfer y cymwysterau Craidd: Does dim angen aros am weithgaredd Sicrhau Ansawdd Allanol cyn hawlio ardystiad ar gyfer eich dysgwyr. Cofrestrwch a chyflwyno eich dysgwyr ar IAMIS fel arfer.

2. Darparwyr cymeradwy nad ydynt wedi derbyn Statws Hawlio Uniongyrchol: Rydym yn argymell yn gryf bod canolfannau'n cynllunio gweithgaredd Sicrhau Ansawdd Allanol ymlaen llaw cyn mis Rhagfyr 2023 er mwyn gallu symud yn ddidrafferth i'r dull asesu newydd. Os nad ydych chi wedi gallu trefnu gweithgaredd ansawdd terfynol cyn 31 Rhagfyr 23, anfonwch e-bost at CCPLD@wjec.co.uk.

## Will I still be able to use the internal assessments (case studies) for learner assessment after January 2024?

**HSC Core:** The LIVE internal assessments (case studies) currently available on HCLW will be withdrawn during WB 27 November 2023. Approved providers are **not permitted** to use the internal assessments with learners who are unlikely to successfully complete their assessments before end November 2023. This timeline ensures that successful learners can be externally quality assured prior to 31 December 2023.

## A fydda i'n dal yn gallu defnyddio'r asesiadau mewnol (astudiaethau achos) ar gyfer asesiadau dysgwyr ar ôl mis Ionawr 2024?

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd:** Bydd asesiadau mewnol (astudiaethau achos) BYW sydd ar gael ar hyn o bryd ar HCLW yn cael eu tynnu'n ôl yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 27 Tachwedd 2023. **Ni chaniateir** i ddarparwyr cymeradwy ddefnyddio'r asesiadau mewnol gyda dysgwyr sy'n annhebygol o gwblhau eu hasesiadau'n llwyddiannus cyn diwedd mis Tachwedd 2023. Mae'r llinell amser hon yn sicrhau bod modd sicrhau ansawdd dysgwyr llwyddiannus yn allanol cyn 31 Rhagfyr 2023.

| | |
|---|---|
| **CCPLD Core**: The LIVE internal assessments (case studies) will remain on the hclw until Friday 22nd December 2023. Centres should ensure that, for learners completing their qualification using the current assessment strategy, assessment takes place with sufficient time for a resit if required prior to the 31 December 2023.<br><br>City & Guilds and WJEC anticipate that our currently LIVE internal assessments will be reprofiled in January 2024 to become additional support materials for approved providers and their learners, and to support the teaching and learning and formative assessment process. | **Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Craidd**: Bydd asesiadau mewnol BYW (astudiaethau achos) yn aros ar hclw tan ddydd Gwener 22 Rhagfyr 2023. Dylai canolfannau sicrhau, ar gyfer dysgwyr sy'n cwblhau eu cymhwyster gan ddefnyddio'r strategaeth asesu bresennol, bod yr asesiad yn cael ei gynnal gyda digon o amser i ailsefyll os oes angen cyn 31 Rhagfyr 2023.<br><br>Mae City & Guilds a CBAC yn rhagweld y bydd ein hasesiadau mewnol BYW presennol yn cael eu hailbroffilio ym mis Ionawr 2024 i ddod yn ddeunyddiau cefnogi ychwanegol ar gyfer darparwyr cymeradwy a'u dysgwyr, ac i gefnogi'r broses addysgu a dysgu ac asesu ffurfiannol. |
| **When will the new MCQ be available to book?**<br><br>**City & Guilds** – customers will be able to make bookings via the Walled Garden from 1 January 2024<br><br>**WJEC** – customers will be able to make bookings from 14 December 2023, for MCQ tests to be sat from 8 January 2024. | **Pryd fydd y Cwestiynau Amlddewis newydd ar gael i'w harchebu?**<br><br>**City & Guilds** – bydd cwsmeriaid yn gallu archebu drwy Walled Garden o 1 Ionawr 2024 ymlaen<br><br>**CBAC** – bydd cwsmeriaid yn gallu archebu o 14 Rhagfyr 2023 ymlaen, er mwyn i brofion Cwestiynau Amlddewis gael eu cynnal o 8 Ionawr 2024 ymlaen. |
| **Will learner MCQ results be automatic?**<br><br>New questions have been added to the MCQ so there may be a short delay of up to 20 days for confirmation of initial results. This is because we need to monitor the performance of each new question before confirming learner results. | **A fydd canlyniadau cwestiynau amlddewis dysgwyr yn awtomatig?**<br><br>Mae cwestiynau newydd wedi cael eu hychwanegu at y Cwestiynau Amlddewis felly efallai y bydd oedi byr o hyd at 20 diwrnod i gadarnhau'r canlyniadau cychwynnol. Mae hyn oherwydd bod angen i ni fonitro perfformiad pob cwestiwn newydd cyn cadarnhau canlyniadau dysgwyr. |

## What is the last date I can certificate my learners?

As detailed in our customer communication shared in April 2023, it is our intention to extend the CCPLD and the HSC Core qualifications for a period of 5 years beyond the dates for which they are currently approved.

These plans remain unchanged, and we continue to work towards this goal.

We will publish the revised registration/start and certification end dates as soon as these have been approved by Qualifications Wales and will be similar for both qualifications.

These revised dates will apply to revised version of the Core. As described above, learners completing with reduced assessment must be complete by 31 December 2023.

## Beth yw'r dyddiad olaf y gallaf ardystio fy nysgwyr?

Fel y nodwyd yn ein gohebiaeth â chwsmeriaid a rannwyd ym mis Ebrill 2023, ein bwriad yw ymestyn y cymwysterau craidd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol am 5 mlynedd y tu hwnt i'r dyddiadau y maent wedi cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd.

Nid yw'r cynlluniau hyn wedi newid, ac rydym yn parhau i weithio tuag at y nod hwn.

Byddwn yn cyhoeddi'r dyddiadau cofrestru/cychwyn ac ardystio diwygiedig cyn gynted ag y bydd Cymwysterau Cymru wedi eu cymeradwyo a byddant yn debyg ar gyfer y ddau gymhwyster.

Bydd y dyddiadau diwygiedig hyn yn berthnasol i fersiwn diwygiedig o'r cymhwyster Craidd. Fel y disgrifir uchod, mae'n rhaid i ddysgwyr sy'n cwblhau gydag asesiadau llai fod wedi cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2023.

The City and Guilds of London Institute.
Incorporated by Royal Charter. Founded 1878.
Registered Charity in England and Wales 312832 and in Scotland SC039576.
WJEC CBAC Ltd. is a company limited by guarantee, registration in
England and Wales (no. 3150875) and is a registered charity (no. 1073332)